



Disgrifiad Swydd

Rheolwr Prosiect Cymraeg Byd Busnes

A hoffech weithio gydag un o'r prif fudiadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar hyd a lled Cymru?

Mae Mentrau Iaith Cymru yn lansio gwasanaeth newydd i gefnogi busnesau bach a chanolig (SME) i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Gweithredir y prosiect cyffrous hwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac fel rhan o hyn, rydym yn chwilio am Reolwr Prosiect i reoli a chydlynu'r gwaith ar draws Cymru.

Mae'r swydd hon yn un gyffrous ac yn galw am unigolyn hyblyg, brwdfrydig a hyderus sydd yn gallu meistrolï nifer o elfennau amrywiol sydd ynghlwm wrth waith rheoli prosiect proffil cenedlaethol uchel ei broffil, a hynny mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Bydd gofyn teithio'n rheolaidd i amryw o leoliadau ledled Cymru yn ôl y galw.

Lleoliad: Posiblirwydd o weithio yn swyddfeydd amryw o Fentrau Iaith ar draws Cymru, yn ddibynnol ar leoliad yr ymgeisydd llwyddiannus.

Cyfllog: £28,485 - £30,153 – (Graddfa NJC S02 32- 34)

Prif Feysydd Gwaith y Rheolwr Prosiect:

- Rheoli cyfeiriad strategol 10 swyddog datblygu (er bydd rheolaeth dydd i ddydd a chyfrifoldebau adnoddau dynol y swyddogion yn gyfrifoldeb y Mentrau Iaith lleol perthnasol)
- Cynnig cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r cynllun (gan gynnwys cydlynu'r negeseuon i MIC, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, FSB, Busnes Cymru ayyb)
- Rheoli'r grant a'r berthynas â Llywodraeth Cymru
- Rheoli cyfres o 10 Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Mentrau Iaith Cymru a Mentrau Iaith lleol
- Llunio rhaglen monitro, mesur effaith a sicrhau ansawdd i'r cynllun yn ei gyfanrwydd erbyn 31 Medi 2017 i dderbyn sêl bendith Llywodraeth Cymru cyn i'r gwaith ddechrau. Bydd y rhaglen hon yn nodi canlyniadau ieithyddol clir a

mesuradwy.

Dyletswyddau

- Rheoli cyfeiriad strategol y cynllun a chynlluniau gwaith swyddogion datblygu y cynllun
- Cyfrifoldeb am reoli'r grant a ddyrannwyd i Mentrau Iaith Cymru gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd cynnydd rheolaidd ar draws Cymru yn unol â chanllawiau monitro Llywodraeth Cymru
- Cynrychioli Mentrau Iaith Cymru ar Grŵp Marchnata Cymraeg byd Busnes sydd yn gosod cyfeiriad strategol i'r gwaith o gynnal ymgyrchoedd a chydlynu negeseuon cenedlaethol am y Gymraeg ym myd busnes
- Sicrhau sêl bendith Llywodraeth Cymru i'r rhaglen monitro, mesur effaith a sicrhau ansawdd a'i rhoi ar waith
- Cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer Strategaeth y Gymraeg. Bydd blaenoriaethu'r fframwaith yn dod i'r amlwg maes o law, ac mae'n bosibl bydd y prosiect hwn yn destun gwerthusiad allanol. Os dyna'r achos, disgwylir i reolwr y prosiect a'r swyddogion gydweithio â'r Llywodraeth ni wrth roi'r gwerthusiad ar waith
- Cynnal a datblygu Fforwm Genedlaethol o ymarferwyr sydd yn cefnogi busnesau yng Nghymru er mwyn datblygu cyfeiriad strategol cyson a chlir o ran negeseuon cenedlaethol am y Gymraeg mewn busnes (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bychain Cymru, Comisiynydd y Gymraeg ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill)
- Arwain a datblygu'r gwaith o gadw canllaw ymarferwyr "Gweithio Gyda Busnesau Bach Lleol" (dogfen a grëwyd ar y cyd rhwng Mentrau Iaith Cymru a Llywodraeth Cymru) yn fyw gan sicrhau bod y ddogfen yn arwain gwaith y swyddogion datblygu yn lleol
- Rheoli cyfres o 10 cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Mentrau Iaith Cymru a Mentrau Iaith unigol a fydd yn cyflogi a chydlynu rheolaeth o'r swyddogion o ddydd i ddydd
- Mynychu cyrsiau hyfforddiant a chyfarfodydd perthnasol, ac adnabod anghenion hyfforddi aelodau o'r tîm
- Cadw cofnodion trylwyr o gynnydd y gwaith gan ddilyn prosesau cenedlaethol i'w cytuno rhwng Mentrau Iaith Cymru a Llywodraeth Cymru
- Creu astudiaethau achos yn ôl y galw i dystiolaethu
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau a gofynion rhesymol eraill


Sgiliau / Profiad hanfodol-

- Profiad o reoli prosiectau a chynlluniau proffil uchel yn llwyddiannus
- Profiad o reoli cyllid/cyllidebau
- Dealltwriaeth dda o anghenion busnesau wrth iddynt ddatblygu gwasanaeth/au
- Profiad o ddylanwadu a pherswadio'n effeithiol ar lefel uchel
- Yn drefnus ac effeithiol
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol o safon uchel
- Y gallu i drefnu gwaith heb gyfarwyddyd uniongyrchol gan ddatblygu syniadau a strategaethau newydd
- Y gallu i gydweithio ag eraill ac ennyn diddordeb a brwdfrydedd.
- Sgiliau cyfrifiadurol da (e.e. MS Office).
- Trwydded yrru lân a chyfredol a mynediad i'ch cerbyd eich hun.
- Yn rhugl ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) - ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Sgiliau / Profiad dymunol-

- Profiad o reoli neu redeg busnes
- Profiad o weithio yn y maes cyfathrebu/ hyrwyddo/ marchnata
- Profiad o werthuso prosiectau'n ffurfiol gan gynnwys ysgrifennu adroddiadau gwerthuso
- Profiad o drefnu cynadleddau a/ neu gydlynu cyfarfodydd
- Dealltwriaeth o waith MIC, Mentrau Iaith a phartneriaid sy'n ymwneud â'r maes hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sector breifat
- Dealltwriaeth o bolisi iaith a'r maes cynllunio iaith yng Nghymru

Diwedd



CYMRAG

